Llywodraeth Cymru
Welsh Government

LLYWODRAETH CYMRU

# Cyllideb Atodol

2025-2026

## Nodyn Esboniadol

**Mehefin 2025**

**llyw.cymru**

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG52502, ISBN digidol 978-1-80633-016-4
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

Cynnwys


**1. Cyflwyniad 2**

**2. Dyraniadau Allweddol 3**

**3. Newidiadau i Gyllideb Cymru ers Cyllideb Derfynol 2025-265**

**4. Trosglwyddiadau rhwng Portffolios y Gweinidogion 14**

**5. Trosglwyddiadau o fewn Portffolios y Gweinidogion 16**

**6. Newidiadau i Gronfeydd Wrth Gefn 19**

**7. Cyllidebau Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) 25**

**Atodiad 1 – Cysoni rhwng Cyllidebau'r Portffolios yn Nhablau'r**

**Camau Gweithredu a'r rhai yng Nghynnig y Gyllideb 27**

**Atodiad 3 – Geirfa 29**


Os oes gennych unrhyw gwestiynau am gynnwys y ddogfen hon cysylltwch â: customerhelp@llyw.cymru

## 1. Cyflwyniad

**1.1** Heddiw cyflwynodd Llywodraeth Cymru y gyllideb atodol gyntaf ar gyfer 2025-26, yn unol â Rheol Sefydlog 20. Mae'r gyllideb atodol hon yn cynnig newidiadau i'r Gyllideb Derfynol ar gyfer 2025-26 fel y'i cymeradwywyd gan Senedd Cymru ('y Senedd') ar 4 Mawrth 2025.

**1.2** Mae'r gyllideb atodol hon yn unioni dyraniadau i gronfeydd wrth gefn ac oddi wrthynt, a throsglwyddiadau o fewn portffolios a rhyngddynt. Mae hefyd yn cynnwys addasiadau i gyllideb Cymru i adlewyrchu effaith digwyddiadau cyllidol Llywodraeth y DU.

**1.3** Ceir crynodeb o'r newidiadau a gynigir yn y gyllideb hon yn y penodau canlynol.

**1.4** Mae'r ddogfen hon yn ategu'r 'Tablau Llinellau Gwariant yn y Gyllideb (BELs)' manwl sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

# 2. Dyraniadau Allweddol

## Cyflwyniad

**2.1** Diben y gyllideb atodol hon yw unioni cyllideb Llywodraeth Cymru i adlewyrchu newidiadau sy'n codi o Ddatganiad y Gwanwyn a Phrif Amcangyfrifon 2025-26 Llywodraeth y DU mewn cysylltiad â symiau canlyniadol a throsglwyddiadau o adrannau eraill o'r llywodraeth ac i adrannau eraill o'r llywodraeth.

## Cyllid i helpu Cyflogwyr yn y Sector Cyhoeddus Datganoledig gyda'r Cynnydd mewn Cyfraniadau Yswiriant Gwladol

**2.2** Mae'r gyllideb atodol hon yn cadarnhau dyrannu pecyn gwerth cyfanswm o **£220m** i gefnogi ein gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys addysg bellach, gyda chostau Cyfraniadau Yswiriant Gwladol uwch.

**2.3** Darparodd Llywodraeth y DU £185m o gyllid i Gymru yn dilyn ei phenderfyniad i gynyddu cyfraniadau cyflogwyr yng Nghyllideb y DU yn yr hydref. Mae hyn yn sylweddol is na'r £257m y mae ar gyflogwyr y sector cyhoeddus yng Nghymru ei angen i fodloni'r cynnydd y maent yn ei wynebu mewn costau Cyfraniadau Yswiriant Gwladol.

**2.4** Mae'r diffyg hwn, o fwy na £70m, yn deillio o benderfyniad Llywodraeth y DU y dylai Cymru gael swm canlyniadol Barnett o'r costau ychwanegol i gyflogwyr yn y sector cyhoeddus datganoledig yn Lloegr, yn hytrach na'r costau gwirioneddol.

**2.5** Bydd y £185m yn cael ei drosglwyddo'n llawn i gyflogwyr yn y sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu £36m ychwanegol o'i chronfeydd wrth gefn i greu dyraniad sy'n gyfanswm o £220m i ddarparu cymorth ychwanegol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus hanfodol yng Nghymru.

**2.6** Mae manylion y dadansoddiad o'r dyraniadau a wnaed i'r MEGs wedi'u nodi isod:

| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs) | Dyraniad Cyfraniadau Yswiriant Gwladol<br><br>(£m) |
|---|---|
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol | 98.494 |
| Llywodraeth Leol a Thai | 97.587 |
| Addysg | 10.087 |
| Trafnidiaeth | 4.304 |
| Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | 2.708 |
| Yr Economi, Ynni a Chynllunio | 2.279 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 0.238 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 4.900 |
| **Cyfanswm y Dyraniadau Cyfraniadau Yswiriant Gwladol i MEGs Llywodraeth Cymru** | **220.597** |

## Y MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**2.7** Mae'r gyllideb atodol hon yn darparu dyraniad adnoddau o £100m i'r MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu yn nes ymlaen yr wythnos hon.

## 3. Newidiadau i Gyllideb Cymru ers Cyllideb Derfynol 2025-26

**3.1** Mae tablau 3.1 i 3.4 yn nodi effaith net yr holl newidiadau i gyllideb Cymru. Mae tabl 3.5 yn crynhoi cyfanswm y dyraniadau yn ôl MEG.

## Tabl 3.1 – Ffynonellau Cyllid Llywodraeth Cymru

| ELFENNAU CYLLIDO LLYWODRAETH CYMRU | Cyllideb Derfynol 2025-26 | Newid-iadau | Cyllideb Atodol 2025-26 Cynlluniau Newydd Mehefin 2025 |
|---|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| **CYLLIDO ADNODDAU** | | | |
| **Terfyn Gwariant Adrannol (DEL):** | | | |
| Cyllidol | 17,668,284 | 342,617 | 18,010,901 |
| Anghyllidol | 1,049,686 | 188,243 | 1,237,929 |
| Tynnu i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru | 0 | 40,000 | 40,000 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME):** | | | |
| Cyllidol | 37,151 | -1,794 | 35,357 |
| Anghyllidol | 254,934 | -27,006 | 227,928 |
| **Cyllido a Ddatganolwyd i Gymru:** | | | |
| Ardrethi Annomestig | 1,078,000 | 0 | 1,078,000 |
| Cyfradd Treth Incwm Cymru | 3,602,716 | 0 | 3,602,716 |
| Y Dreth Trafodiadau Tir | 342,912 | 0 | 342,912 |
| Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi | 32,833 | 0 | 32,833 |
| Ad-dalu prifswm benthyca | -12,998 | 2,396 | -10,602 |
| **CYFANSWM CYLLIDO ADNODDAU** | **24,053,518** | **544,456** | **24,597,974** |
| **CYLLIDO CYFALAF** | | | |
| **Terfyn Gwariant Adrannol (DEL):** | | | |
| Cyffredinol | 3,276,059 | 16,353 | 3,292,412 |
| Tynnu i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru | 0 | 0 | 0 |
| Trafodiadau Ariannol | 85,323 | -193 | 85,130 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME):** | | | |
| Cyfalaf | 1,353,983 | 38,770 | 1,392,753 |
| **Cyllido a Ddatganolwyd i Gymru:** | | | |
| Benthyca | 150,000 | 0 | 150,000 |
| **CYFANSWM CYLLIDO CYFALAF** | **4,865,365** | **54,930** | **4,920,295** |
| **CYFANSWM CYLLIDO CYMRU** | **28,918,883** | **599,386** | **29,518,269** |

## Tabl 3.2 – Dyrannu Cyllideb Cymru

| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG) | | £000oedd | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Cyllideb Derfynol 2025-26 | Newidiadau | Cyllideb Atodol 2025-26 Cynlluniau Newydd Mehefin 2025 |
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol | | 13,198,537 | 254,326 | 13,452,863 |
| Llywodraeth Leol a Thai | | 7,867,133 | 89,824 | 7,956,957 |
| Addysg | | 3,693,568 | 38,505 | 3,732,073 |
| Trafnidiaeth | | 1,419,665 | 4,304 | 1,423,969 |
| Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | | 923,470 | 4 | 923,474 |
| Yr Economi, Ynni a Chynllunio | | 908,929 | 22,170 | 931,099 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | | 159,380 | 2,879 | 162,259 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | | 463,326 | 1,954 | 465,280 |
| **Cyfanswm y Dyraniad i MEGs Llywodraeth Cymru** | | **28,634,008** | **413,966** | **29,047,974** |
| Adnoddau heb eu Dyrannu | Adnoddau Cyllidol | 6,369 | -4,520 | 1,849 |
| | Adnoddau Anghyllidol | 151,533 | 188,199 | 339,732 |
| Cyfalaf heb ei Ddyrannu | Cyfalaf Cyffredinol | 37,138 | 443 | 37,581 |
| Cyfalaf wedi'i Orddyrannu | Trafodiadau Ariannol | -13,777 | 57 | -13,720 |
| Comisiwn y Senedd | | 83,845 | 773 | 84,618 |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | | 6,392 | 84 | 6,476 |
| Swyddfa Archwilio Cymru | | 9,791 | 389 | 10,180 |
| Y Comisiwn Etholiadol | | 2,742 | 0 | 2,742 |
| Gwariant a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru | | 842 | -5 | 837 |
| **CYFANSWM CYLLIDEB CYMRU** | | **28,918,883** | **599,386** | **29,518,269** |

## Tabl 3.3 – Newidiadau i Ddyraniadau MEG Adnoddau Llywodraeth Cymru

| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs) | £000oedd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | CYLLIDOL | | | ANGHYLLIDOL | | |
| | Cyllideb Derfynol 2025-26 | Newidiadau | Cyllideb Atodol 2025-26 Cynlluniau Newydd Mehefin 2025 | Cyllideb Derfynol 2025-26 | Newidiadau | Cyllideb Atodol 2025-26 Cynlluniau Newydd Mehefin 2025 |
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol | 11,975,555 | 259,121 | 12,234,676 | 325,509 | 0 | 325,509 |
| Llywodraeth Leol a Thai | 5,483,188 | 92,565 | 5,575,753 | 0 | 0 | 0 |
| Addysg | 1,800,854 | 18,494 | 1,819,348 | 267,594 | 0 | 267,594 |
| Trafnidiaeth | 661,777 | 4,304 | 666,081 | 226,691 | 0 | 226,691 |
| Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | 579,966 | 2,916 | 582,882 | 20,938 | 0 | 20,938 |
| Yr Economi, Ynni a Chynllunio | 465,586 | 6,786 | 472,372 | 32,664 | 64 | 32,728 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 139,296 | 2,909 | 142,205 | 507 | -20 | 487 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 426,979 | 1,254 | 428,233 | 18,538 | 0 | 18,538 |
| **Cyfanswm y Dyraniad i MEGs Llywodraeth Cymru** | **21,533,201** | **388,349** | **21,921,550** | **892,441** | **44** | **892,485** |

## Tabl 3.4 – Newidiadau i Ddyraniadau MEG Cyfalaf Llywodraeth Cymru

| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG) | £000oedd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | CYFALAF CYFFREDINOL | | | TRAFODIADAU ARIANNOL | | |
| | Cyllideb Derfynol 2025-26 | Newidiadau | Cyllideb Atodol 2025-26 Cynlluniau Newydd Mehefin 2025 | Cyllideb Derfynol 2025-26 | Newidiadau | Cyllideb Atodol 2025-26 Cynlluniau Newydd Mehefin 2025 |
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol | 619,480 | 3,745 | 623,225 | 0 | 0 | 0 |
| Llywodraeth Leol a Thai | 1,196,280 | 0 | 1,196,280 | 72,862 | 0 | 72,862 |
| Addysg | 374,500 | 0 | 374,500 | -1,701 | -240 | -1,941 |
| Trafnidiaeth | 529,197 | 0 | 529,197 | 0 | 0 | 0 |
| Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | 306,566 | -3,912 | 302,654 | 10,000 | 0 | 10,000 |
| Yr Economi, Ynni a Chynllunio | 327,676 | 15,320 | 342,996 | 16,478 | 0 | 16,478 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 17,890 | 0 | 17,890 | 1,461 | -10 | 1,451 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 14,609 | 700 | 15,309 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm y Dyraniad i MEGs Llywodraeth Cymru** | **3,386,198** | **15,853** | **3,402,051** | **99,100** | **-250** | **98,850** |

**3.2** Darperir trosolwg isod o'r newidiadau i'r ffynonellau cyllid ac mae manylion y dyraniadau o gronfeydd wrth gefn i'w gweld ym mhennod 6.

## Addasiadau i Ffynonellau Cyllid

### Adnoddau Cyllidol

**3.3** Cafwyd cynnydd net o £342,617k i linell sylfaen Adnoddau Cyllidol o gan gynnwys:

- Cynnydd o symiau canlyniadol Barnett yn dod i gyfanswm o £270,107k ac yn cynnwys:
  - £13,823k mewn perthynas â chyllid a gyhoeddwyd yng Nghyllideb y DU ar gyfer y Gwanwyn 2025; a
  - £256,284k a ddaeth i law adeg Prif Amcangyfrifon Llywodraeth y DU ym mis Mai 2025, y mae £185,427k ohono yn ymwneud â chyllid ar gyfer y cynnydd mewn Cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr;
- Trosglwyddiad o £61,317k i mewn oddi wrth y Swyddfa Gartref mewn perthynas â'r Gordal Iechyd Mewnfudo;
- Trosglwyddiadau o £1,021k i mewn o gronfeydd wrth gefn Trysorlys EF yn cynnwys:
  - £846k mewn perthynas â Gwasanaethau Cyngor Ariannol;
  - £175k oherwydd cywiro gwallau blaenorol gan Drysorlys EF;
- Trosglwyddiadau o £3,738k i mewn oddi wrth y Weinyddiaeth Gyfiawnder mewn perthynas â Chyllid Dysgu a Sgiliau'r Parc;
- Trosglwyddiad o £1,453k i mewn oddi wrth y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol mewn perthynas â'r cynllun Cartrefi i Wcráin;
- Trosglwyddiad o £125k i mewn oddi wrth CThEF mewn perthynas â Chyllid Cyngor ar Ddyledion;
- Trosglwyddiad o £5,000k i mewn oddi wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) mewn perthynas â'r Cynllun Peilot Anweithgarwch Economaidd;

- Trosglwyddiad o £(16)k allan i Swyddfa’r Cabinet mewn perthynas â chyfraniad Llywodraeth Cymru at ‘y Gwasanaeth Sifil yn Fyw 2025’; a
- Trosglwyddiad o £(128)k allan i Drysorlys EF mewn perthynas ag ariannu'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol am waith a wnaed ar ragolygon trethi datganoledig.

### Adnoddau Anghyllidol

**3.4** Ers y Gyllideb Derfynol mae'r llinell sylfaen adnoddau anghyllidol wedi cynyddu £188,243k ym Mhrif Amcangyfrifon Llywodraeth y DU, sy'n cynnwys £35,997k mewn dibrisiant cyffredinol a £152,246k wedi'i glustnodi ar gyfer benthyciadau i fyfyrwyr.

### Cyllido Datganoledig Cymru

**3.5** Nid oes unrhyw newidiadau i'r incwm trethi datganoledig yn y gyllideb atodol hon – mae'r rhagolygon yn parhau i adlewyrchu'r rhai a gyhoeddwyd adeg y Gyllideb Derfynol.

**3.6** Mae'r swm y mae ei angen i ad-dalu prifswm benthyca wedi gostwng ers y Gyllideb Derfynol. Mae hyn yn golygu cynnydd o £2,396k yn y cyllid sydd ar gael.

### Cyfalaf Cyffredinol

**3.7** Cafwyd cynnydd net o £16,353k i'r llinell sylfaen cyfalaf cyffredinol, yn cynnwys:

- Cynnydd gwerth cyfanswm o £742k yn symiau canlyniadol Barnett ac yn cynnwys:
  - £2,304k mewn perthynas â chyllid a gyhoeddwyd yn Natganiad y Gwanwyn Llywodraeth y DU; a
  - Gostyngiad yn symiau canlyniadol Barnett o £(1,562)k adeg Prif Amcangyfrifon Llywodraeth y DU ym mis Mai 2025;

- Trosglwyddiad o £591k i mewn o gronfeydd wrth gefn Trysorlys EF oherwydd cywiro gwallau blaenorol; a,
- Throsglwyddiad o £15,020k i mewn oddi wrth y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol mewn perthynas â Phorthladdoedd Rhydd.

## Cyfalaf Trafodiadau Ariannol

**3.8** Mae'r llinell sylfaen trafodiadau ariannol wedi gostwng £(193)k ers Cyllideb Derfynol 2025-26 oherwydd cywiro gwallau blaenorol gan Drysorlys EF.

## Tabl 3.5 – Crynodeb o Gyfanswm Dyraniadau MEG Llywodraeth Cymru

| | CYFANSWM DYRANIADAU MEG 2025-26 yn ôl y GYLLIDEB ATODOL | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000oedd | | | | | | | | | |
| | Adnoddau | | | Cyfalaf | | | Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) | | | CYFANSWM Y DYRANIAD MEG |
| **PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs)** | **Cyllidol** | **Anghyll-idol** | **Cyfanswm Adnoddau** | **Cyffred-inol** | **Trafod-iadau Ariannol** | **Cyfanswm Cyfalaf** | **Adnoddau** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm AME** | |
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol | 12,234,676 | 325,509 | **12,560,185** | 623,225 | 0 | **623,225** | 262,953 | 6,500 | **269,453** | **13,452,863** |
| Llywodraeth Leol a Thai | 5,575,753 | 0 | **5,575,753** | 1,196,280 | 72,862 | **1,269,142** | 1,112,062 | 0 | **1,112,062** | **7,956,957** |
| Addysg | 1,819,348 | 267,594 | **2,086,942** | 374,500 | -1,941 | **372,559** | -113,681 | 1,386,253 | **1,272,572** | **3,732,073** |
| Trafnidiaeth | 666,081 | 226,691 | **892,772** | 529,197 | 0 | **529,197** | 2,000 | 0 | **2,000** | **1,423,969** |
| Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | 582,882 | 20,938 | **603,820** | 302,654 | 10,000 | **312,654** | 7,000 | 0 | **7,000** | **923,474** |
| Yr Economi, Ynni a Chynllunio | 472,372 | 32,728 | **505,100** | 342,996 | 16,478 | **359,474** | 66,525 | 0 | **66,525** | **931,099** |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 142,205 | 487 | **142,692** | 17,890 | 1,451 | **19,341** | 226 | 0 | **226** | **162,259** |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 428,233 | 18,538 | **446,771** | 15,309 | 0 | **15,309** | 3,200 | 0 | **3,200** | **465,280** |
| **CYFANSWM Y DYRANIADAU I MEGs LLYWODRAETH CYMRU** | **21,921,550** | **892,485** | **22,814,035** | **3,402,051** | **98,850** | **3,500,901** | **1,340,285** | **1,392,753** | **2,733,038** | **29,047,974** |

## 4. Trosglwyddiadau rhwng Portffolios y Gweinidogion

**4.1** Cafwyd trosglwyddiadau lluosog rhwng portffolios y Gweinidogion yn y gyllideb atodol hon, gan wneud cyfanswm o £14,647k. Crynhoir effaith net y trosglwyddiadau ar bob un o'r MEGs yn y tabl isod.

| | Adnoddau Cyllidol £'000 | | | Cyfalaf £'000 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | I | O | Trosglwydd-iadau Net | I | O | Trosglwydd-iadau Net |
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol | 1,300 | -1,990 | -690 | 3,745 | 0 | 3,745 |
| Llywodraeth Leol a Thai | 45 | -5,067 | -5,022 | 0 | 0 | 0 |
| Addysg | 4,709 | -40 | 4,669 | 0 | 0 | 0 |
| Trafnidiaeth | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | 1,041 | 0 | 1,041 | 0 | -4,745 | -4,745 |
| Yr Economi, Ynni a Chynllunio | 1,367 | -1,860 | -493 | 1,000 | -700 | 300 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 500 | -200 | 300 | 0 | 0 | 0 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 240 | -45 | 195 | 700 | 0 | 700 |
| | **9,202** | **-9,202** | **0** | **5,445** | **-5,445** | **0** |

**4.2** Mae manylion y trosglwyddiadau dros £1m fel a ganlyn:

### Adnoddau Cyllidol

**4.3** Trosglwyddiad o £3,700m o'r BEL Cymorth ac Atal Digartrefedd o fewn y MEG Llywodraeth Leol a Thai i'r BEL Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid o fewn y MEG Addysg mewn perthynas â nodi ac ymyrryd yn gynnar ym maes digartrefedd.

**4.4** Trosglwyddiad o £1,367k o'r BEL Ardrethi Annomestig - Rhyddhad Ardrethi o fewn y MEG Llywodraeth Leol a Thai i'r BEL Cymru Greadigol

o fewn MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio mewn perthynas â chyllid ar gyfer cronfa rhyddhad ardrethi annomestig i stiwdios yng Nghymru.

**4.5** Trosglwyddiad o £1,200k o'r BEL Busnes a Datblygu Economaidd Rhanbarthol o fewn MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio i'r BEL Cyllidebau Eraill y GIG (Gwariant) o fewn y MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol mewn perthynas â chyllid craidd ar gyfer Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.

**4.6** Trosglwyddiad o £1,041 o'r BEL Cyllidebau Eraill y GIG (Gwariant) yn y MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'r BEL Buddsoddi i Arbed – Twf Gwyrdd yn y MEG Newid  Hinsawdd a Materion Gwledig mewn perthynas ag ad-daliadau o brosiectau'r Byrddau Iechyd.

## Cyfalaf Cyffredinol

**4.7** Trosglwyddiad o £3.745m o'r BEL Gwasanaethau Ynni Llywodraeth Cymru o fewn y MEG Newid Hinsawdd a Materion Gwledig i'r BEL Gwasanaethau Craidd y GIG o fewn y MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol mewn perthynas â maes parcio canopi solar Ysbyty Athrofaol Llandochau.

**4.8** Trosglwyddiad o £1,000k o'r BEL Effeithlonrwydd Adnoddau a'r Economi Gylchol o fewn y MEG Newid Hinsawdd a Materion Gwledig i'r BEL Busnes a Datblygu Economaidd Rhanbarthol o fewn MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio mewn perthynas â Chronfa Dyfodol yr Economi.

## 5. Trosglwyddiadau o fewn Portffolios y Gweinidogion

**5.1** Yn ogystal â'r trosglwyddiadau rhwng Portffolios y Gweinidogion a nodir ym mhennod 4, mae nifer o drosglwyddiadau rhwng BELs o fewn yr un portffolios a gynhwysir yn y Tablau BEL sydd wedi'u cyhoeddi. Gweinyddol eu natur yw'r rhain yn gyffredinol ac nid oes ganddynt unrhyw effaith net ar gyfansymiau'r MEGs unigol. Nodir y MEGs lle mae'r trosglwyddiadau hyn yn uwch na £1m isod:

### Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**5.2** Cafwyd trosglwyddiadau adnoddau lluosog gwerth cyfanswm o £23,050k rhwng BELs o fewn y MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a'r rhai mwyaf sylweddol o'r rhain yw:

- £21,688k o gyllid adnoddau o'r BEL Dyraniadau Craidd y GIG i wahanol BELs i gysoni'r dyraniadau i Fyrddau Iechyd Lleol yn gywir ac i gysoni'r dyraniadau i ariannu ymrwymiadau penodol;
- £1,000k o gyllid adnoddau o'r BEL Cyllidebau Canolog Datblygu'r Gweithlu i'r BEL Addysg a Gwella Iechyd Cymru mewn perthynas â Chynllun Comisiynu Addysg a Hyfforddiant GIG Cymru ar gyfer 2025/26.

### Llywodraeth Leol a Thai

**5.3** Cafwyd trosglwyddiadau adnoddau lluosog gwerth cyfanswm o £1,355k a throsglwyddiadau cyfalaf gwerth cyfanswm o £72,100k rhwng BELs yn y MEG Llywodraeth Leol a Thai, a'r rhai mwyaf sylweddol o'r rhain yw:

- £1,153k o gyllid adnoddau o'r BEL Polisi Etholiadol i'r BEL Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru mewn perthynas â Rheoliadau'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig 2025; a
- £72,000k o gyllid cyfalaf o'r BEL Diogelwch Adeiladau sy'n cynnwys:
  - ➢ £55,000k i'r BEL Grantiau Tai Cymdeithasol mewn perthynas â'r Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol; a
  - ➢ £17,000k i'r BEL Adfywio i gefnogi llif o brosiectau i'w cyflawni yn 2025/26.

## Addysg

**5.4** Cafwyd trosglwyddiadau adnoddau lluosog gwerth cyfanswm o £9,998k rhwng BELs o fewn y MEG Addysg, a'r rhai mwyaf sylweddol o'r rhain yw:

- trosglwyddiad o £4,730k o'r BEL Cefnogi Dysgu Digidol mewn Addysg i'r BEL Seilwaith Addysg i gysoni'r dyraniad nad yw'n arian parod â chyllid cyfalaf ar gyfer trwyddedau Microsoft; a
- throsglwyddiad o £2,426k o BEL y Gymraeg mewn Addysg i BEL y Cwricwlwm ac Asesu ar gyfer Adnodd.

## Trafnidiaeth

**5.5** Ni chafwyd unrhyw drosglwyddiadau rhwng BELs o fewn y MEG Trafnidiaeth.

## Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

**5.6** Cafwyd trosglwyddiadau adnoddau lluosog gwerth cyfanswm o £4,362k a throsglwyddiadau cyfalaf gwerth cyfanswm o £8,188k rhwng BELs yn y MEG Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, a'r rhai mwyaf sylweddol o'r rhain yw:

- £1,920k o gyllid adnoddau o'r BEL Rheoli Perygl Llifogydd a Chyflawni Polisi Dŵr i'r BEL Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â Gorfodi Ansawdd Dŵr 2025-26;
- £1,052k o gyllid cyfalaf o'r BEL Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru i'r BEL Buddsoddi i Arbed – Twf Gwyrdd; a
- £1,000k o gyllid cyfalaf o'r BEL Bioamrywiaeth a Thystiolaeth a £4,200k o'r BEL Effeithlonrwydd Adnoddau a'r Economi Gylchol i'r BEL Diogelu Planhigion a Bywyd Gwyllt, Mawndiroedd a Rheoleiddio (cyfanswm o £5,200k) mewn perthynas â phriddoedd a mawndiroedd.

## Yr Economi, Ynni a Chynllunio

**5.7** Cafwyd trosglwyddiadau adnoddau lluosog gwerth cyfanswm o £3,679k a throsglwyddiad cyfalaf o £5,000k rhwng BELs o fewn MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio, a'r rhai mwyaf sylweddol o'r rhain yw:

- Adnoddau o £1,396k o'r BEL Cyflogadwyedd Gan Gynnwys y Warant i Bobl Ifanc i'r BEL Busnes Cymru mewn perthynas â chyllid hunangyflogaeth;
- £1,500k o gyllid adnoddau o'r BEL Busnes Cymru i'r BEL Arloesi ar gyfer Busnes mewn perthynas ag arloesi ar gyfer costau staff yn dilyn diwedd rhaglenni'r UE; a,
- £5,000k o gyllid cyfalaf o'r BEL Gwyddoniaeth i'r BEL Arloesi ar gyfer Busnes mewn perthynas â throsglwyddo cronfeydd rhaglen ARTHUR.

## Cyfiawnder Cymdeithasol

**5.8** Mae trosglwyddiad adnoddau gwerth cyfanswm o £100k wedi digwydd rhwng BELs o fewn y MEG Cyfiawnder Cymdeithasol.

## Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu

**5.9** Cafwyd trosglwyddiadau adnoddau lluosog gwerth cyfanswm o £970k a throsglwyddiadau cyfalaf gwerth cyfanswm o £8,402k rhwng BELs yn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu, a'r rhai mwyaf sylweddol o'r rhain yw:

- Mae cyfalaf o £7,052k wedi'i drosglwyddo o'r BEL Gwariant Gweinyddu Cyffredinol i'r BEL Costau TGCh newydd i gysoni cyllidebau â chyfrifoldebau dirprwyedig.

## 6. Newidiadau i Gronfeydd Wrth Gefn

**6.1** Mae'r gyllideb hon yn unioni nifer o ddyraniadau i gronfeydd wrth gefn ac oddi wrthynt. Mae crynodeb i'w gael yn nhabl 6.1 isod ac mae rhestr lawn yn rhoi manylion yr holl symudiadau o ran cronfeydd wrth gefn Llywodraeth Cymru ar gael ar y wefan.

### Dyraniadau o Gronfeydd Adnoddau Cyllidol Wrth Gefn

**6.2** Mae dyraniadau gwerth cyfanswm o £393,023k wedi'u gwneud o gronfeydd adnoddau cyllidol wrth gefn yn y gyllideb atodol hon. Mae'r rhain yn cynnwys £220,597k sy'n ymwneud â'r cynnydd mewn Cyfraniadau Yswiriant Gwladol ar draws yr holl MEGs (gweler y dadansoddiad ym mharagraff 2.6), ynghyd â'r dyraniadau MEG canlynol:

- Iechyd a Gofal Cymdeithasol - £161,317 i'r BEL Dyraniadau Craidd y GIG gan gynnwys:
  - £100,000k gyda rhagor o wybodaeth i'w darparu yn ddiweddarach yr wythnos hon; a,
  - £61,317k mewn perthynas â'r Gordal Iechyd Mewnfudo.
- Addysg - £3,738k:
  - £3,738k i'r BEL Dysgu ar gyfer Troseddwyr mewn perthynas â chyllid a ddaeth i law oddi wrth y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer dysgu a sgiliau yng Ngharchar EF y Parc ym Mhen-y-bont ar Ogwr.
- MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio - £5,000k:
  - I'r BEL Cyflogadwyedd Gan Gynnwys y Warant i Bobl Ifanc mewn perthynas â phrosiect y cynllun peilot anweithgarwch economaidd.
- Cyfiawnder Cymdeithasol - £2,371k:
  - I'r BEL Gwasanaethau Cynghori mewn perthynas â defnyddio incwm yn y ffordd orau bosibl.

### Trosglwyddiadau i Gronfeydd Adnoddau Cyllidol Wrth Gefn

**6.3** Mae trosglwyddiadau gwerth cyfanswm o (4,674)k wedi'u gwneud i gronfeydd adnoddau cyllidol wrth gefn yn y gyllideb atodol hon, o'r portffolios canlynol:

- £(3,841)k o'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu, yn cynnwys:
  - £(3,697)k o'r BEL Cost Benthyca mewn perthynas â newidiadau i gostau benthyca;
  - £(128)k o'r BEL Trethi Datganoledig mewn perthynas â'r taliad i Drysorlys EF ar gyfer darparu rhagolygon trethi annibynnol gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol; a
  - £(16)k o'r BEL Gwariant Gweinyddol Cyffredinol fel cyfraniad at y Gwasanaeth Sifil yn Fyw 2025.
- £(833)k o'r BEL Buddsoddi i Arbed – Twf Gwyrdd yn y MEG Newid Hinsawdd a Materion Gwledig mewn perthynas â newid o refeniw i gyfalaf.

### Dyraniadau o Gronfeydd Adnoddau Anghyllidol Wrth Gefn

**6.4** Mae dyraniadau gwerth cyfanswm o £64k wedi'u gwneud o gronfeydd adnoddau anghyllidol wrth gefn i MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio yn y gyllideb atodol hon. Mae'r rhain yn cynnwys:

  - £52k i'r BEL Cadw - Heb Fod yn Arian Parod mewn perthynas â lesoedd; a,
  - £12k i'r BEL Gweithrediadau Seilwaith – Heb Fod yn Arian Parod mewn perthynas â dibrisiant asedau a lesiwyd.

### Trosglwyddiadau i Gronfeydd Adnoddau Anghyllidol Wrth Gefn

**6.5** Mae trosglwyddiadau gwerth cyfanswm o £(20)k wedi'u gwneud i gronfeydd adnoddau anghyllidol wrth gefn yn y gyllideb atodol hon o'r MEG Cyfiawnder Cymdeithasol i adlewyrchu gostyngiad mewn gofynion anghyllidol gan y Comisiynydd Pobl Hŷn.

### Dyraniadau o Gronfeydd Cyfalaf Cyffredinol Wrth Gefn

**6.6** Mae dyraniadau gwerth cyfanswm o £15,853k wedi'u gwneud o gronfeydd cyfalaf cyffredinol wrth gefn yn y gyllideb atodol hon. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Yr Economi, Ynni a Chynllunio - £15,020k i'r BEL Porthladdoedd Rhydd mewn perthynas â Phorthladd Rhydd Ynys Môn a'r Porthladd Rhydd Celtaidd; a,

- Newid Hinsawdd a Materion Gwledig - £833k i'r BEL Buddsoddi i Arbed – Twf Gwyrdd mewn perthynas â newid o refeniw i gyfalaf.

## Dyraniadau i Gronfeydd Cyfalaf Cyffredinol Wrth Gefn

**6.7** Nid oes unrhyw drosglwyddiadau wedi'u gwneud i gronfeydd cyfalaf cyffredinol wrth gefn yn y gyllideb atodol hon.

## Dyraniadau i Gronfeydd Cyfalaf Trafodiadau Ariannol Wrth Gefn

**6.8** Mae trosglwyddiadau gwerth cyfanswm o (250)k wedi'u gwneud i gronfeydd cyfalaf trafodiadau ariannol wrth gefn yn y gyllideb atodol hon.

- Addysg - £(240)k o'r BEL Seilwaith Addysg mewn perthynas ag ad-daliadau cyfalaf ar y benthyciad a roddwyd i Goleg Castell-nedd Port Talbot yn 2024-25.
- Cyfiawnder Cymdeithasol - £(10)k mewn perthynas ag ariannu benthyciadau cynhwysiant ariannol.

**Tabl 6.1 – Newidiadau i Gronfeydd Wrth Gefn 2025-26 ers y Gyllideb Derfynol a’r Dyraniadau o Gronfeydd Wrth Gefn sy’n cael eu gwneud yn y Gyllideb Atodol hon**

| | £000oedd | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Adnoddau Cyllidol | Adnoddau Anghyllidol | Cyfanswm yr Adnoddau | Cyfalaf Cyffredinol | Cyfalaf Trafodiadau Ariannol | Cyfanswm Cyfalaf | Cyfanswm |
| **Cronfeydd adeg y Gyllideb Derfynol** | 6,369 | 151,533 | **157,902** | 37,138 | (13,777) | **23,361** | **181,263** |
| Trosglwyddiadau a Symiau Canlyniadol ers y Gyllideb Derfynol | 342,617 | 188,243 | **530,860** | 16,353 | (193) | **16,160** | **547,020** |
| Gostyngiad yn y prifswm benthyca | 2,396 | 0 | **2,396** | 0 | 0 | **0** | **2,396** |
| Tynnu i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru | 40,000 | 0 | **40,000** | 0 | 0 | **0** | **40,000** |
| **Cronfeydd Wrth Gefn Diwygiedig** | **391,382** | **339,776** | **731,158** | **53,491** | **(13,970)** | **39,521** | **770,679** |
| **NEWIDIADAU ERAILL I MEGs SY'N EFFEITHIO AR GRONFEYDD WRTH GEFN** | | | | | | | |
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol | (259,811) | 0 | **(259,811)** | 0 | 0 | **0** | **(259,811)** |
| Llywodraeth Leol a Thai | (97,587) | 0 | **(97,587)** | 0 | 0 | **0** | **(97,587)** |
| Addysg | (13,825) | 0 | **(13,825)** | 0 | 240 | **240** | **(13,585)** |
| Trafnidiaeth | (4,304) | 0 | **(4,304)** | 0 | 0 | **0** | **(4,304)** |
| Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | (1,875) | 0 | **(1,875)** | (833) | 0 | **(833)** | **(2,708)** |
| Yr Economi, Ynni a Chynllunio | (7,279) | (64) | **(7,343)** | (15,020) | 0 | **(15,020)** | **(22,363)** |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | (2,609) | 20 | **(2,589)** | 0 | 10 | **10** | **(2,579)** |

| | £000oedd | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Adnoddau Cyllidol** | **Adnoddau Anghyllidol** | **Cyfanswm yr Adnoddau** | **Cyfalaf Cyffredinol** | **Cyfalaf Trafodiadau Ariannol** | **Cyfanswm Cyfalaf** | **Cyfanswm** |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | (1,059) | 0 | **(1,059)** | 0 | 0 | **0** | **(1,059)** |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **NEWIDIADAU ERAILL I MEGs SY'N EFFEITHIO AR GRONFEYDD WRTH GEFN** | **(388,349)** | **(44)** | **(388,393)** | **(15,853)** | **250** | **(15,603)** | **(403,996)** |
| **NEWIDIADAU ERAILL SY'N EFFEITHIO AR GRONFEYDD WRTH GEFN** | | | | | | | |
| Comisiwn y Senedd | (716) | 0 | **(716)** | (57) | 0 | **(57)** | **(773)** |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | (84) | 0 | **(84)** | 0 | 0 | **0** | **(84)** |
| Swyddfa Archwilio Cymru | (389) | 0 | **(389)** | 0 | 0 | **0** | **(389)** |
| Taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru | 5 | 0 | **5** | 0 | 0 | **0** | **5** |
| **NEWIDIADAU ERAILL SY'N EFFEITHIO AR GRONFEYDD WRTH GEFN** | **(1,184)** | **0** | **(1,184)** | **(57)** | **0** | **(57)** | **(1,241)** |
| **Cronfeydd Wrth Gefn yn y Gyllideb hon** | **1,849** | **339,732** | **341,581** | **37,581** | **(13,720)** | **23,861** | **365,442** |

## 7. Cyllidebau Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)

**7.1** Mae cyllidebau AME y manylir arnynt yng Nghyllideb Derfynol 2025-26 wedi'u diweddaru i adlewyrchu'r rhagolygon a ddarparwyd i'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) a Thrysorlys EF ym mis Medi 2025.

Mae Tabl 7.1 isod yn nodi'r cyllidebau AME presennol.

## Tabl 7.1 – Newidiadau i Ddyraniadau AME MEG Llywodraeth Cymru

| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG) | £000oedd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | ADNODDAU | | | CYFALAF | | |
| | Cyllideb Derfynol 2025-26 | Newid-iadau | Cyllideb Atodol Gyntaf 2025-26 Cynlluniau Newydd Mehefin 2025 | Cyllideb Derfynol 2025-26 | Newid-iadau | Cyllideb Atodol Gyntaf 2025-26 Cynlluniau Newydd Mehefin 2025 |
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol | 277,173 | -14,220 | 262,953 | 820 | 5,680 | 6,500 |
| Llywodraeth Leol a Thai | 1,114,803 | -2,741 | 1,112,062 | 0 | 0 | 0 |
| Addysg | -100,842 | -12,839 | -113,681 | 1,353,163 | 33,090 | 1,386,253 |
| Trafnidiaeth | 2,000 | 0 | 2,000 | 0 | 0 | 0 |
| Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | 6,000 | 1,000 | 7,000 | 0 | 0 | 0 |
| Yr Economi, Ynni a Chynllunio | 66,525 | 0 | 66,525 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 226 | 0 | 226 | 0 | 0 | 0 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 3,200 | 0 | 3,200 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm y Dyraniad i Lywodraeth Cymru** | **1,369,085** | **-28,800** | **1,340,285** | **1,353,983** | **38,770** | **1,392,753** |

## Atodiad 1 – Cysoni rhwng Cyllidebau'r Portffolios yn Nhablau'r Camau Gweithredu a'r rhai yng Nghynnig y Gyllideb

Mae'r Nodyn Esboniadol yn ategu Cynnig y Gyllideb Atodol, a gyhoeddir ochr yn ochr â'r ddogfen hon, sy’n nodi’r newidiadau i'r adnoddau y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu defnyddio yn 2025-26 a'r arian parod y mae’n ceisio awdurdod i’w dynnu o Gronfa Gyfunol Cymru. Mae'r tablau yn y nodyn hwn yn defnyddio cyfansymiau rheoli Trysorlys Ei Fawrhydi ac yn cyd-fynd â'r Tablau BEL. Er hynny, mae'r ffigurau yng Nghynnig y Gyllideb Atodol yn cyd-fynd â'r Datganiad o Alldro Adnoddau a ddefnyddir yng nghyfrifon Llywodraeth Cymru ac sy'n cael ei baratoi ar sail ychydig yn wahanol.

Mae cyllideb weinyddol Llywodraeth Cymru yn cynnwys eitemau nad ydynt yn sgorio’n rhan o'r ‘Adnoddau y Gofynnir Amdanynt’ gan Weinidogion Cymru. Mae'r Atodiad hwn yn darparu cysoniad rhwng y ddau yn ôl pob portffolio.

| | CYLLIDEB ATODOL 2025-26 | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000oedd | | | | | | | | |
| | **Iechyd a Gofal Cymdeith-asol** | **Llywod-raeth Leol a Thai** | **Addysg** | **Trafnidiaeth** | **Newid Hinsawdd a Materion Gwledig** | **Yr Economi, Ynni a Chynlluni o** | **Cyfiawn-der Cymdeith-asol** | **Gwasan-aethau Canolog a Gweinyddu** | **CYFANSWM** |
| Adnoddau | 12,560,185 | 5,575,753 | 2,086,942 | 892,772 | 603,820 | 505,100 | 142,692 | 446,771 | **22,814,035** |
| Cyfalaf | 623,225 | 1,269,142 | 372,559 | 529,197 | 312,654 | 359,474 | 19,341 | 15,309 | **3,500,901** |
| AME Adnoddau | 262,953 | 1,112,062 | -113,681 | 2,000 | 7,000 | 66,525 | 226 | 3,200 | **1,340,285** |
| AME Cyfalaf | 6,500 | 0 | 1,386,253 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **1,392,753** |
| **CYFANSWM Y GWARIANT A REOLIR** | **13,452,863** | **7,956,957** | **3,732,073** | **1,423,969** | **923,474** | **931,099** | **162,259** | **465,280** | **29,047,974** |
| **Cysoni ag Adnoddau** | | | | | | | | | |
| Defnyddio Adnoddau – Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru | -39 | | -437 | | -16,000 | -38,566 | | | **-55,042** |
| Benthyca â Chymorth | | -88,800 | | | | | | | **-88,800** |
| Costau Casglu Derbyniadau'r Gronfa Yswiriant Gwladol | -906 | | | | | | | | **-906** |
| Ardrethi Annomestig Cenedlaethol sy'n Daladwy (a'r Costau Casglu) | | -1,083,172 | | | | | | | **-1,083,172** |
| Taliadau Llog ar Fenthyciadau | | | | | | | | -16,249 | **-16,249** |
| Y Fenter Cyllid Preifat (PFI) | | | | -10,362 | | | | | **-10,362** |
| **ADNODDAU Y GOFYNNIR AMDANYNT** | **13,451,918** | **6,784,985** | **3,731,636** | **1,413,607** | **907,474** | **892,533** | **162,259** | **449,031** | **27,793,443** |

# Atodiad 3 – Geirfa

| | |
|---|---|
| **Adolygiad Gwariant** | O bryd i'w gilydd mae Trysorlys EF yn adolygu gwariant pob un o Adrannau Llywodraeth y DU ac yn pennu cyllidebau ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Mae cyllidebau ar gyfer y gweinyddiaethau datganoledig yn deillio o'r cyllidebau hyn drwy gyfrwng Fformiwla Barnett, sef y dull a ddefnyddir i gyfrifo'r gwariant cyhoeddus a ddyrennir i Gymru i adlewyrchu'r newidiadau yn lefelau'r gwariant a ddyrennir i wasanaethau cyhoeddus yn Lloegr. |
| **Cam Gweithredu** | O fewn pob Maes Rhaglen Wariant, dyrennir cyllidebau i nifer o is-raglenni a elwir yn Gamau Gweithredu. |
| **CNLC** | Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae enghreifftiau'n cynnwys Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru. |
| **Cronfa Gyfunol Cymru** | Y cyfrif sy'n derbyn yr arian sydd i'w ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru, Comisiwn y Senedd, yr Archwilydd Cyffredinol ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn unol â phleidlais Senedd y DU. |
| **Cwmpasoedd** | Disgrifiadau o'r dibenion penodol y mae Gweinidogion Cymru wedi'u hawdurdodi gan Senedd Cymru i wario adnoddau arnynt. Cynhwysir disgrifiadau o'r cwmpasoedd a'r terfynau o ran adnoddau yn y Cynigion ar gyfer y Cyllidebau Blynyddol ac Atodol. Mae'r cwmpasoedd yn cyfateb i'r MEGs. |
| **Cyfalaf** | Gwariant sy'n arwain yn bennaf at ased ffisegol, er enghraifft adeilad newydd. Mae gan gyllidebau DEL ac AME Llywodraeth Cymru derfynau gwahanol ar gyfer cyfalaf ac adnoddau. |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)** | Cyfanswm Rheoli gan Drysorlys EF yw hwn sy'n cynnwys cyfanswm y Terfyn Gwariant Adrannol ynghyd â Gwariant a Reolir yn Flynyddol. |
| **Cyllidebu adnoddau** | Mae cyllideb Llywodraeth Cymru yn cael ei phennu ar sail adnoddau sy'n deillio o wybodaeth am groniadau. Mae'r wybodaeth am groniadau yn mesur adnoddau wrth iddynt gael eu defnyddio yn hytrach na phan delir yr arian parod. Felly, er enghraifft, mae cyllidebu adnoddau yn cynnwys |

| | |
|---|---|
| | codi swm am ddibrisiant, sef ffordd o fesur yr asedau cyfalaf a ddefnyddiwyd neu a dreuliwyd. |
| **Cynnig y Gyllideb** | Y dull a ddefnyddir gan Senedd Cymru i roi awdurdod i Weinidogion Cymru wario adnoddau hyd at lefel benodol ar ddibenion penodedig ac i dynnu arian parod hyd at derfyn penodol o Gronfa Gyfunol Cymru. |
| **DEL Adnoddau Anghyllidol** (cyfeirir ato weithiau fel 'adnoddau nad ydynt yn arian parod') | Mae'r gyllideb DEL Adnoddau Anghyllidol yn sgorio gwariant cyfredol yr adran mewn perthynas â dibrisiant ac amhariadau benthyciadau i fyfyrwyr. Mae DEL Adnoddau Anghyllidol wedi'i glustnodi ac ni ellir ei ddefnyddio i gyllido gwariant DEL adnoddau cyllidol. |
| **DEL Adnoddau Cyllidol** (y cyfeirir ato weithiau fel refeniw) | Y gyllideb DEL Adnoddau Cyllidol sy'n sgorio'r rhan fwyaf o wariant cyfredol yr adran. Cofnodir gwariant ar sail croniadau. Mae'n cynnwys gwariant ar gyflogau, caffael cyfredol, grantiau cyfredol a chymorthdaliadau. |
| **Derbyniadau** | Mae rhai rhannau o weithgarwch Llywodraeth Cymru yn creu incwm, er enghraifft, drwy werthu neu rentu asedau. Caiff y rhain eu cynrychioli yn y gyllideb fel ffigurau negyddol. |
| **Dibrisiant** | Y gostyngiad yng ngwerth ased yn sgil traul, oed a'r ffaith ei fod wedi darfod. O ran cyllidebu adnoddau, mae dibrisiant yn rhan o DEL Llywodraeth Cymru ond mae'n eitem DEL adnoddau anghyllidol. |
| **Gwariant a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru** | Gwariant y mae'n ofynnol yn gyfreithiol ei godi'n uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru ac nad yw felly'n sgorio yn erbyn cyllidebau Llywodraeth Cymru nac unrhyw gorff arall. Mae'r gwariant a godir yn uniongyrchol yn cynnwys cyflogau'r Llywydd a'r Archwilydd Cyffredinol. |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)** | Gwariant na all yn rhesymol fod yn destun cyfyngiadau cadarn, amlflwyddyn yn yr un ffordd â DEL, ac sydd felly'n cael ei adolygu ddwywaith y flwyddyn fel rhan o brosesau Cyllideb ac Adroddiad Rhag-gyllidebol Trysorlys Ei Fawrhydi. Mae AME, fel rheol, yn cynnwys rhaglenni sy'n fawr, yn ansicr neu'n ymateb i'r galw; er enghraifft benthyciadau i fyfyrwyr. |
| **Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL)** | O fewn pob Cam Gweithredu, dyrennir cyllidebau i nifer o is-grwpiau gwariant a elwir yn Llinellau Gwariant yn y |

| | |
|---|---|
| | Gyllideb. Mae tablau sy'n dangos cyllidebau ar lefel y BEL ar gael yn: https://www.llyw.cymru/cyllidebau-llywodraeth-cymru |
| **Prif Grŵp Gwariant (MEG)** | Caiff DEL Llywodraeth Cymru ei rannu'n nifer o Brif Grwpiau Gwariant. Mae 8 o MEGs ar hyn o bryd: Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Llywodraeth Leol a Thai; Addysg; Trafnidiaeth; Newid Hinsawdd a Materion Gwledig; Yr Economi, Ynni a Chynllunio; Cyfiawnder Cymdeithasol a Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu. |
| **Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)** | Terfyn y gyllideb amlflwyddyn ar gyfer Llywodraeth Cymru a bennir gan Drysorlys EF mewn Adolygiadau Gwariant. |
| **Trafodiadau Ariannol** | Dim ond at ddibenion benthyciadau ac ecwiti y gellir defnyddio trafodiadau ariannol. Hefyd mae'n rhaid ad-dalu cyfran o'r cyllid i'r Trysorlys. |